LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

perfformiadau byw
cyflwyniadau / teithiau
live performances
presentations / tours

GWANWYN 2016 SPRING

LLGC NLW

www.llgc.org.uk

CROESO
WELCOME

CIPOLWG AT A GLANCE 3
ARDDANGOSFEYDD EXHIBITIONS 4–8
CAFFI PEN DINAS 9
SIOP SHOP 10
DARLITHOEDD A CHYFLWYNIADAU TALKS AND PRESENTATIONS 11–18
LANSIO LLYFR BOOK LAUNCH 18
CERDDORIAETH MUSIC 19
FFILM FILM 20–21
SIOE SHOW 22
ANTUR ADVENTURE 23
GWYBODAETH I YMWELWYR VISITOR INFORMATION 24–26
CADWCH MEWN CYSYLLTIAD KEEP IN TOUCH 26–27

GOSTYNGIAD I GRWPIAU O 10 NEU FWY
–
DISCOUNTS GIVEN TO PARTIES OF 10 OR MORE

LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru
The National Screen and Sound Archive of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

CIPOLWG AT A GLANCE

TOCYNNAU / TICKETS
01970 632 548
www.llgc.org.uk/drwm

IONAWR / JANUARY

20	Women and disability in South Wales coalfields	1.15pm

CHWEFROR / FEBRUARY

03	Castell Conwy	1.15pm
06	The early readers of The National Library of Wales	2.00pm
17	Crumbling Pageant	1.15pm
24	Noson yng nghwmni Robat Arwyn	7.30pm

MAWRTH / MARCH

01	Dathlu Gŵyl Dewi / Celebrating St. David's Day	12.30pm
02	Angus McBean: Wales's greatest photographer	1.15pm
05	Diwrnod Antur i Blant / Children's Adventure Day	2.00–4.00pm
11	Ffilm / Film: 'Adam Price a Streic y Glowyr'	7.30pm
23	Anabledd a'r diwydiant glo yn Ne Cymru, 1850–1947	1.15pm

EBRILL / APRIL

01	Roald Dahl - Yr Awdur Mawr Mwyn / The Big Friendly Author	10.00am + 2.00pm
06	Warfare and literature in Wales 1039–1136	1.15pm
13	Hunting Glyndŵr	7.30pm
29	An evening of Antiques & Anecdotes with Marc Allum	7.30pm

MAI / MAY

04	Ffilm / Film: 'Of time and the railway'	12.00pm
14	Ffair Hanes Teulu a Hanes Lleol / Family and Local History Fair	10.00am–4.00pm

Mae 2016 yn flwyddyn 'Antur' –
cofnodwch eich antur chi yn y Llyfrgell
#FyAnturFawr
2016 is the year of 'Adventure' –
record your adventure in the Library
#FindyourEpic

C Digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg / Event held in Welsh
E Digwyddiad drwy gyfrwng y Saesneg / Event held in English
B Digwyddiad dwyieithog / A bilingual event
T Darperir cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation provided

Cymru Wales
2016

Arddangosfeydd
Exhibitions

MYNEDIAD AM DDIM
FREE ENTRY

Dewch i fwynhau casgliadau hynod y Llyfrgell Genedlaethol sy'n cael eu harddangos yn ein horielau. Os dyma eich ymweliad cyntaf neu os ydych wedi ymweld o'r blaen, mae'r croeso wastad yn gynnes. Mae ein holl arddangosfeydd am ddim ac rydym yn croesawu teuluoedd. I ychwanegu at eich ymweliad beth am ymweld â'n siop a Caffi Pen Dinas a mwynhau golygfeydd arbennig Bae Ceredigion?

Come and explore the remarkable collections of the National Library on display in our galleries. Whether it's your first visit, or you've been here before, you're assured of a warm welcome. All of our exhibitions are free and families are welcome. Complete your visit with a unique shopping experience in our gift shop and enjoy views over Cardigan Bay in the relaxed atmosphere of Caffi Pen Dinas.

'Llyfr Coffa Cenedlaethol Cymru / The Welsh Book of Remembrance 1928'

Tan – 2 Ebrill 2016

O Ben y Pwll i'r Ysbyty a Thu Hwnt

Arddangosfa ar y cyd ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, sy'n edrych ar hanes cudd anabledd ym Meysydd Glo Prydain rhwng 1780 ac 1948 a chyn dyfodiad y GIG. Gan edrych ar ymchwil hanesyddol newydd mae'r arddangosfa hon yn gofyn cwestiynau megis: Sut oedd pobl anabl yn cael eu trin a'u gweld mewn cymunedau glofaol yn y cyfnod hwn, sut fywydau oedd ganddynt a beth mae hanes anabledd ym maes glo'r de yn ei ddysgu i ni?

Until – 2 April 2016

From Pithead to Sickbed and Beyond

A partnership exhibition with the National Waterfront Museum, Swansea, which looks at the buried history of disability in the British coal industry between 1780 and 1948 and before the NHS. Drawing on new historical research the exhibition tackles questions such as: How were disabled people in coalmining communities treated and viewed, what were their lives like and what does the history of disability in the South Wales Coalfield teach us?

16 Ionawr – 9 Ebrill 2016

Er Cof: Cofio dros Heddwch

Cyfle i weld Llyfr Coffa Cenedlaethol Cymru ochr yn ochr â'r copi digidol. Bydd yr arddangosfa hon yn edrych ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar Gymru ac yn cyflwyno hanes rhai o'r milwyr hynny a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel.

16 January – 9 April 2016

Er Cof: Remembering for Peace

An opportunity to see the Welsh Book of Remembrance alongside the digital copy. This exhibition will explore the impact of the First World War on Wales and present the history of some of those soldiers who lost their lives in the War.

Cyfres o arddangosfeydd sy'n cofio rhyfeloedd ein hanes.
A series of exhibitions remembering our history's wars.



Llyfr Aneirin, Caerdydd MS 2.81, Cyngor Dinas Caerdydd (h) / Cardiff City Council (c)

23 Ionawr – 18 Mehefin 2016

Geiriau'r gyflafan: rhyfel mewn llenyddiaeth Gymreig

Trwy'r canrifoedd bu beirdd a llenorion Cymru yn portreadu'r profiad o ryfela, gan ddathlu buddugoliaeth neu alaru wedi methiant. Mae'r arddangosfa hon yn canolbwyntio ar bedair cyflafan hanesyddol – mawr a bach – rhwng y chweched ganrif a'r ail ganrif ar bymtheg. Dangosir geiriau artistiaid megis Aneirin a David Jones, Bleddyn Fardd a Gerallt Lloyd Owen, ochr-yn-ochr â thystiolaeth croniclwyr, rhai yn gyfoes ac eraill yn ôl-syllol. Dewch yng nghwmni'r beirdd i Gatraeth, Cilmeri, Bosworth a'r Somme.

23 January – 18 June 2016

Words of war: conflict in Welsh literature

For centuries, Welsh poets and prose writers have depicted the experience of war, either by celebrating victories or mourning defeat. This exhibition focuses on four historic conflicts from the sixth to the seventeenth centuries – both battles and skirmishes. Poignant eyewitness accounts and later reactions by artists such as Aneirin and David Jones, Bleddyn Fardd and Gerallt Lloyd Owen will be shown alongside the narrative testimonies of contemporary and later chroniclers. Let the poets take you to Catraeth, Cilmeri, Bosworth and the Somme.



The End of War – Sir William Nicholson, © Amgueddfa Cymru – National Museum of Wales

30 Ionawr – 28 Mai 2016

Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Arddangosfa deithiol o Amgueddfa Genedlaethol Cymru – National Museum Wales o'r 66 gwaith ym mhortffolio printiau 1917, The Great War: Britain's Efforts and Ideals, sy'n cynnwys cyfraniadau gan rai o artistiaid Prydeinig enwocaf y cyfnod, megis Augustus John, Frank Brangwyn, William Rothenstein a C. R. W. Nevinson. Gyda'r nod o ysbrydoli'r cyhoedd oedd wedi cael digon ar ryfela, ac ailgynnau fflam yr ymdrech, dangosa'r printiau hyn gamau cynnar propaganda gwleidyddol modern.

30 January – 28 May 2016

Efforts and Ideals: Prints of the First World War

A touring exhibition from the Amgueddfa Genedlaethol Cymru – National Museum of Wales of all 66 works from the 1917 print portfolio, The Great War: Britain's Efforts and Ideals, which includes contributions from some of the best known British artists of the period, such as Augustus John, Frank Brangwyn, William Rothenstein and C. R. W. Nevinson. Designed to encourage a war-weary public and raise support for the war effort, they show modern political propaganda in its early stages.

ORIEL GALLERY

3 Mawrth 2016 – Chwefror 2017

Antur ar bob tudalen

Arddangosfa fydd yn edrych ar antur mewn llenyddiaeth Gymraeg ac Eingl-Gymreig o ddechreuadau cynnar llenyddiaeth hyd at heddiw. Trwy arddangos gwaith amrywiaeth o awduron gobeithiwn ysgogi atgofion melys o straeon plentyndod ac annog ymwelwyr i fynd ar eu hantur eu hunain.

3 March 2016 – February 2017

Adventure is just a page away

An exhibition that will look at adventure in Welsh and Anglo-Welsh literature from the early beginnings of literature to the present day. By exhibiting the work of a variety of authors we hope to bring back happy memories of childhood stories and encourage visitors to go on their own adventure.

Bronwirion 1946 - Girlguiding Cymru (h) (c)

23 Ebrill – 3 Medi 2016

Girlguiding Cymru: Gwthio'r Ffiniau

Arddangosfa a fydd yn olrhain hanes mudiad Girlguiding Cymru o'i sefydlu yn 1910 hyd heddiw. Defnyddir ffotograffau ac eitemau gwreiddiol o archif Girlguiding Cymru ynghyd â chasgliadau'r Llyfrgell i edrych ar sut y mae'r mudiad wedi gwthio'r ffiniau a dylanwadu ar fywydau merched ar hyd y blynyddoedd.

Arddangosfa ar y cyd rhwng LlGC, Girlguiding Cymru a Chasgliad y Werin Cymru.

23 April – 3 September 2016

Girlguiding Cymru: Pushing the Boundaries

An exhibition tracing the history of Girlguiding Cymru from its establishment in 1910 to the present day. Using photographs and original items from the Girlguiding Cymru archive as well as the Library's collections we will look at how the movement has pushed the boundaries and impacted on the lives of girls over the years.

A joint exhibition between NLW, Girlguiding Cymru and People's Collection Wales.

TOCYNNAU / TICKETS
01970 632 548
www.llgc.org.uk/drwm

Keith Morris Arrswebwales.com

CAFFI PEN DINAS

Testun balchder i ni yng Nghaffi Pen Dinas yw darparu bwyd o ansawdd uchel sy'n cael ei baratoi yma gan ddefnyddio cynnyrch Cymreig lleol.

Dewch i fwynhau ein hamrywiaeth o frechdanau, panini, tatws trwy'r crwyn, cawl cartref a phrydau'r dydd. Mae diodydd poeth ac oer ar gael trwy'r dydd a beth am flasu ein teisennau cartref godidog?

Lleolir Caffi Pen Dinas mewn man cyfleus yn ymyl y brif fynedfa, a darperir mynediad rhwydd a chyflesterau i deuluoedd. Rydym yn agored o 9.00am hyd 4.30pm ddydd Llun hyd ddydd Gwener, ac o 9.30am hyd 4.00pm ddydd Sadwrn.

.

At Caffi Pen Dinas we pride ourselves in providing quality food freshly prepared on site, using local Welsh produce.

Come along and enjoy our range of sandwiches, panini, jacket potatoes, homemade soup and daily specials. Hot and cold beverages served all day and why not indulge by tasting our delicious homemade cakes?

Caffi Pen Dinas is conveniently situated near the main entrance, and is family friendly with easy access. We are open from 9.00am until 4.30pm Monday to Friday, and from 9.30am until 4.00pm on Saturdays.

Keith Morris Arrsuebwales.com

SIOP / SHOP

Mae siop y Llyfrgell yn cynnig eitemau unigryw, gwaith wedi ei wneud â llaw a chrefftau a rhoddion anarferol a ysbrydolir gan gasgliadau'r Llyfrgell.

Rydym yn gwerthu nwyddau hardd i'r cartref, gemwaith o ansawdd uchel a wneir yng Nghymru, teganau, llyfrau a CDs.

Rydym ar agor o 9.00am hyd 5.00pm, ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn.

Siop Arlein Newydd: siop.llgc.org.uk

The Library shop offers unique well-crafted items, handmade and unusual crafts and gifts inspired by the Library's collections.

We sell beautiful homeware, quality jewellery hand made in Wales, toys, books and CDs.

We are open from 9.00am until 5.00pm, Monday to Saturday.

New Online Shop: siop.llgc.org.uk

Senghennydd NLW Llyfr Ffoto / Photo Album 1863

Dydd Mercher 20 Ionawr
1.15pm

Women and disability in South Wales coalfields – Alexandra Jones

Dangoswyd bod gwragedd yn y gweithfeydd glo ym mlynyddoedd cyntaf yr 20fed ganrif o dan fwy o berygl marwolaeth na'r dynion. Er y gellid dweud bod gwaith caled gwragedd yn y cartref yn estyniad o'r diwydiant glo, roedd gwragedd hefyd yn gweithio yn y pyllau glo a diwydiannau lleol eraill. Ceir llawer o ddisgrifiadau ohonynt, ond mae'r mwyafrif llethol o'r rhain wedi'u hysgrifennu gan ddynion, a phrin yw'r llenyddiaeth gan wragedd y dosbarth gweithiol. Bydd y cyflwyniad hwn yn amcanu i wneud iawn am hyn drwy edrych ar y portread o wragedd ac anabledd yn llenyddiaeth y meysydd glo.

Mynediad am ddim drwy docyn

Wednesday 20 January
1.15pm

Women and disability in South Wales coalfields – Alexandra Jones

It has been shown that coalfields women near the start of the 20th century were at greater risk of death than their male counterparts. Whilst the arduous work of women in the home was arguably an extension of the coal industry, women also worked both at the colliery and in other local industries. Depictions of female characters are plentiful, but the vast majority of the material was written by men, and writing by working-class women is scarce. This presentation seeks to redress this balance by exploring the representation of women and disability in coalfields literature.

Free admission by ticket

E

Castell Conwy, RichardWilson RA

Dydd Mercher 3 Chwefror
1.15pm

Castell Conwy gan Richard Wilson RA – Dr Paul Joyner

Sgwrs am y braslun o Gastell Conwy gan Wilson sydd yng nghasgliad y Llyfrgell. Holir pam y dewisodd Gonwy, trafodir enghreifftiau eraill a dehonglir y ddelwedd yn ôl safonau heddiw.

Mynediad am ddim drwy docyn

Wednesday 3 February
1.15pm

Castell Conwy by Richard Wilson RA – Dr Paul Joyner

The talk will focus on the drawing of Conwy Castle by Richard Wilson which is owned by the Library and will attempt to answer the question why he chose this subject, discuss other examples and interpret the image for today.

Free admission by ticket

C T

Staff outside the Library at the Assembly Rooms, Aberystwyth, c.1909, NLW Archive S61.

Dydd Sadwrn 6 Chwefror
2.00pm

Digwyddiad Cyfeillion y Llyfrgell: A constant succession of workers: the early readers of The National Library of Wales and their reading habits – Calista Williams gyda Rosemary Thomas, Nan Williams a Daniel Morgan

Yn 1909 agorwyd y Llyfrgell Genedlaethol yn yr 'Assembly Rooms' yn y dref. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae gwirfoddolwyr wedi cofnodi data o gofrestr darllenwyr y Llyfrgell 1909–12. Bydd Calista a'r gwirfoddolwyr yn cyflwyno diwrnod ym mywyd y Llyfrgell yn 1911 gan dynnu ar ei phrosiect doethuriaeth, sy'n archwilio'r cyswllt rhwng y Llyfrgell a hunaniaeth genedlaethol Gymreig.

Mynediad drwy docyn £3.50, am ddim i Gyfeillion y Llyfrgell

Saturday 6 February
2.00pm

NLW Friends Event: A constant succession of workers: the early readers of The National Library of Wales and their reading habits – Calista Williams with Rosemary Thomas, Nan Williams and Daniel Morgan

In 1909 the NLW opened to the public in the Assembly Rooms in the town. Over the last two years volunteers have been recording data from the Library's readers' register 1909–12. Calista and the volunteers will present a day in the life of the National Library in 1911, drawing on her PhD project, which explores the connection between the Library and Welsh national identity.

Admission by ticket £3.50, free to NLW Friends

E

DARLITHOEDD A CHYFLWYNIADAU
TALKS AND PRESENTATIONS

Dydd Mawrth 1 Mawrth
12.30pm

Dathliadau Gŵyl Dewi

Ymunwch â ni wrth inni ddathlu diwrnod ein nawddsant. Dewch i ymweld â ni i fwynhau bwyd traddodiadol Cymreig yng Nghaffi Pen Dinas wrth i chi gael eich diddanu gan gerddoriaeth fyw ar y delyn.

Tuesday 1 March
12.30pm

St David's Day Celebrations

Join us as we celebrate the patron saint of Wales. Come and enjoy traditional Welsh food in Caffi Pen Dinas to the live accompaniment of the harp.

Angus McBean, NLW Photo Album 3433

Dydd Mercher 2 Mawrth
1.15pm

Angus McBean: Wales's greatest photographer – Adrian Woodhouse

Cyflwyniad i fywyd a gwaith Angus McBean gan ei gyfaill a'i fywgraffydd, Adrian Woodhouse, yn sgil derbyn llawysgrifau o stiwdio McBean i gasgliadau'r Llyfrgell.

Mynediad am ddim drwy docyn

Wednesday 2 March
1.15pm

Angus McBean: Wales's greatest photographer – Adrian Woodhouse

An introduction to Angus McBean's life and work by his friend and biographer, Adrian Woodhouse, following the acquisition of McBean's studio manuscripts by the Library.

Free admission by ticket

E

Ben Dant - S4C / Warren Orchard (h) (c)

Dydd Sadwrn 5 Mawrth
2.00pm – 4.00pm

Diwrnod Antur i Blant

Dewch i agoriad ein harddangosfa Antur ar bob tudalen. Bydd cymeriad plant poblogaidd S4C, Ben Dant yno, felly croeso cynnes i'r teulu oll i ymuno yn yr hwyl a'r gweithgareddau!

Mynediad am ddim

Saturday 5 March
2.00pm – 4.00pm

Adventure Day for Children

Come and join us as we open our latest exhibition Adventure is just a page away. The popular S4C character, Ben Dant, will joining us, so there's a warm welcome to families to join in the fun and activities!

Free admission

George Preece, Amgueddfa Cymru - National Museum Wales (h) (c)

Dydd Mercher 23 Mawrth
1.15pm

Anabledd a'r diwydiant glo yn ne Cymru, 1850–1947 – Steve Thompson, Prifysgol Aberystwyth

Cyflwyniad sy'n bwrw golwg dros brofiadau dynion a ddaeth yn anabl oherwydd eu gwaith yn y diwydiant glo gan ystyried y canlyniadau cymdeithasol, economaidd a diwydiannol.

Mynediad am ddim drwy docyn

Wednesday 23 March
1.15pm

Anabledd a'r diwydiant glo yn ne Cymru, 1850–1947 – Steve Thompson, Aberystwyth University

The presentation takes a look at the experiences of miners who became disabled due to their work in the coal industry, and considers the social, economic and industrial implications.

Free admission by ticket

C T

NLW Peniarth 28, f6v

Dydd Mercher 6 Ebrill
1.15pm

Warfare and literature in Wales 1039–1136 – Dr David Moore

Cyflwyniad sy'n bwrw golwg ar amryw agweddau ar ryfela yng Nghymru yng nghyfnod Gruffudd ap Llywelyn a chyrchoedd cyntaf y Normaniaid, drwy lygaid llenorion y cyfnod.

Mynediad am ddim drwy docyn

Wednesday 6 April
1.15pm

Warfare and literature in Wales 1039–1136 – Dr David Moore

A look at some aspects of warfare in Wales during the age of Gruffudd ap Llywelyn and the first Norman incursions, through the eyes of writers of the time.

Free admission by ticket

E

ARDDANGOSFA
EXHIBITION

Hunting Glyndŵr – Mike Parker

#Fy AnturFawr
#FindYourEpic

Dydd Mercher 13 Ebrill
7.30pm

Diflannodd Owain Glyndŵr oddi ar wyneb y ddaear 600 mlynedd yn ôl, a thybiai pawb ei fod wedi marw. Mewn darlith fywiog gyda lluniau, bydd yr awdur Mike Parker yn olrhain hanes gwrthryfel Owain drwy fapiau, ac yn sôn am ei arwyddocâd o ran y map gwleidyddol yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Yn ôl Mike, mae'n profi fod angen cydnabod pwysigrwydd y Canolbarth yn hanes ein cenedl. Dyma gychwyn yr ymgyrch i enwi Aberystwyth a Machynlleth yn gyd-brifddinasoedd newydd Cymru.

Mynediad drwy tocyn £6.00. Bar ar gael

Wednesday 13 April
7.30pm

600 years ago, Owain Glyndŵr vanished, presumed dead. In this lively illustrated lecture, author Mike Parker tracks and maps his uprising, and sees what lessons it can teach us about the twenty-first century political geography of Wales. To Mike it proves that y "Canolbarth" (Mid Wales) needs greater recognition in our national story. The campaign for Aberystwyth and Machynlleth as joint capitals of Wales starts here.

Admission by ticket £6.00. Bar available

E

Dydd Gwener 29 Ebrill
7.30pm

An evening of Antiques & Anecdotes with Marc Allum

Noson na ddylai neb sydd â diddordeb mewn hen bethau â chreiriau ei methu wrth i Marc Allum, arbenigwr ar y BBC Antiques Roadshow, rannu ei wybodaeth a'i brofiad yn y pwnc diddorol hwn.

Mynediad trwy docyn £5.00. Bar ar gael

Friday 29 April
7.30pm

An evening of Antiques & Anecdotes with Marc Allum

An essential event for everyone interested in the world of antiques and collectables as Marc Allum, BBC Antiques Roadshow specialist, shares his knowledge and experience of this fascinating subject.

Admission by ticket £5.00.
Bar available

E

Dydd Sadwrn 14 Mai
10.00am–4.00pm

Ffair Hanes Teulu a Hanes Lleol

Diwrnod llawn o sgyrsiau, cyflwyniadau a stondinau, a chyfle i siarad gydag arbenigwyr yn y maes. Diwrnod delfrydol i bawb sy'n ymddiddori ym mhob agwedd o Hanes Teulu a Hanes Lleol. Cynhelir y digwyddiad mewn cydweithrediad â Chymdeithas Hanes Teulu Ceredigion a Chymdeithasau Hanes Teuluoedd Undebol Cymru.

Mynediad am ddim

Saturday 14 May
10.00am – 4.00pm

Family and Local History Fair

A full day of talks, presentations and stands, with an opportunity to talk to experts. A fascinating day for everyone interested in all aspects of Family and Local History. The event is held in collaboration with the Cardiganshire Family History Society and the Association of Family History Societies of Wales.

Free admission



Dydd Mercher 17 Chwefror
1.15pm

Crumbling Pageant

Sally Roberts Jones sy'n lansio *Crumbling Pageant* gan Elisabeth Inglis-Jones. Roedd Elisabeth yn awdur o bwys ym maes ffuglen, hanes lleol a chofiannau, ac roedd hon, ei hail nofel, yn canolbwyntio ar Morfa, plasty oedd yn seiliedig ar balas rhamantaidd Thomas Johnes yn yr Hafod. Mae'r prif gymeriad yn magu obsesiwn â'r tŷ, sy'n ei harwain ar gyfeiliorn ac yn dinistrio'i bywyd, a bywydau ei phlant. Mae'r nofel yn rhan o gyfres Clasuron Honno, gwasg menywod Cymru.

Mynediad am ddim drwy docyn

Wednesday 17 February
1.15pm

Crumbling Pageant

Sally Roberts Jones launches *Crumbling Pageant* by Elisabeth Inglis-Jones. Elisabeth was an important writer of fiction and local history and biography and this, her second novel, focuses on Morfa, a mansion for which Thomas Johnes's romantic palace Hafod was the inspiration. The main character, becomes obsessed with the house and her obsession destroys her life and those of her children. The book is one of the Welsh Women's Classics series published by Honno.

Mynediad am ddim drwy docyn

E

Noson yng nghwmni Robat Arwyn

Dydd Mercher 24 Chwefror
7.30pm

Noson gerddorol yng nghwmni'r cyfansoddwr Robat Arwyn. Cyfle i fwynhau gwrando ar ei ganeuon, ac i glywed am yr ysbrydoliaeth tu ôl i'w gyfansoddiadau adnabyddus.

Mynediad drwy docyn £5.00. Bar ar gael

Wednesday 24 February
7.30pm

An evening of music in the company of composer Robat Arwyn. A chance to enjoy listening to his songs and to learn about the inspiration behind his best-known compositions.

Admission by ticket £5.00. Bar available.

C

Dydd Gwener 11 Mawrth
7.30pm

Ffilm: 'Adam Price a Streic y Glowyr'

Cyfle i weld y bennod gyntaf yn y gyfres ddogfen hon sydd wedi ennill amryw o wobrau BAFTA Cymru, yn ogystal â Gwobr Gwyn Alf Williams 2015. Cawn glywed gan y cyflwynydd Adam Price a'r Cynhyrchydd-Gyfarwyddwr Steffan Morgan am eu profiadau wrth wneud y rhaglen.

Mynediad am ddim drwy docyn.

Friday 11 March
7.30pm

Film: 'Adam Price a Streic y Glowyr'

A chance to see the first episode of the BAFTA Cymru multi-Award-winning documentary, which also received the 2015 Gwyn Alf Williams Award, and to hear from presenter Adam Price and Producer/ Director Steffan Morgan about how the programme was made. Film in Welsh with subtitles.

Free admission by ticket.

C T

BRITISH ACADEMY CYMRU AWARDS

Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru
The National Screen and Sound Archive of Wales

Gilcwydd late Spring

Dydd Mercher 4 Mai
12.00pm

Ffilm: 'Of time and the railway'
(1 awr, 54 munud)

Ffilm gan Robert Davies sy'n ein gosod yn sedd y gyrrwr wrth ddilyn y rheilffordd rhwng Aberystwyth a chadarnleoedd diwydiannol canolbarth Lloegr. Mae'n rhoi cipolwg ar fywydau'r gwahanol bobl sy'n byw o bobtu'r rheilffordd, ac yn dangos tirwedd a gaiff ei greu a'i ystumio gan y tywydd a throad y tymhorau.

Mynediad am ddim drwy docyn

Wednesday 4 May
12.00pm

Film: 'Of time and the railway'
(1 hour, 54 mins)

A film by Robert Davies featuring the line between the industrial Midlands and Aberystwyth recorded from the driver's perspective. It captures the changing human geography adjacent to the track, and also a landscape that is sustained and twisted by the weather and the coming and going of the seasons.

Free admission by ticket

E

#Fy AnturFawr
#FindYourEpic



Dydd Gwener 1 Ebrill
10.00am

Sioe: Roald Dahl – Yr Awdur Mawr Mwyn

Sioe un dyn addas ar gyfer plant 7–11 oed. Cyfle i fod yn rhan o fyd ansbaredigaethus Roald Dahl wrth iddo'n tywys drwy ei blentyndod a'n cyflwyno i rai o'i gymeriadau enwocaf!

Mynediad trwy docyn £5.00, gan gynnwys diod â chacen.

C



Friday 1 April
2.00pm

Show: Roald Dahl – The Big Friendly Author

A one man show, suitable for children 7–11 years of age. A chance to be part of Roald Dahl's scrumdiddlyumptious world as he takes us on a journey through his childhood and introduces us to some of his most colourful characters.

Admission by ticket £5.00, to include a drink and a cake.

E

#RoaldDahl100cymru
#RoaldDahl100Wales

TOCYNNAU / TICKETS
01970 632 548
www.llgc.org.uk/drwm

ANTUR
yn y Llyfrgell

ADVENTURE
in the Library

Antur yn y Llyfrgell!
(trwy gydol y flwyddyn)

Dewch i fynd ar antur o amgylch arddangosfeydd y Llyfrgell gyda help ein llyfr gweithgaredd newydd sbon. Mae'n llawn gweithgareddau, gemau a phosau cyffrous…

Casglwch eich copi am ddim wrth y dderbynfa

Beth am greu eich antur eich hun yn *Hafan*? Bydd cyfle i lunio stribed comig, ysgrifennu stori antur a bod yn greadigol gyda gweithgareddau'n ymwneud ag antur ar y tir, yn yr awyr, o dan y môr ac yn y gofod.

Adventure in the Library!
(throughout the year)

Come on an adventure around the Library's exhibitions with the help of our brand new activity book. It's full of exciting activities, games and puzzles…

Collect your free copy at reception

How about creating your own adventure in *Hafan*? You can create your own comic strip, write an adventure story and be creative with activities based on adventure on land, in the sky, under the sea and in space.

#FyAnturFawr
#FindyourEpic

GWYBODAETH YMWELWYR
VISITOR INFORMATION

YMWELD

Teithiau tywys am ddim o amgylch y Llyfrgell bob dydd Llun am 11.00am a phob dydd Mercher am 2.15pm. I archebu tocyn cysylltwch â Siop y Llyfrgell ar 01970 632 548 neu archebwch ar y we drwy fynd i www.llgc.org.uk/drwm

Teithiau tywys ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r Llyfrgell hefyd yn cynnig teithiau tywys i grwpiau a chymdeithasau – am ragor o wybodaeth ffoniwch 01970 632 341 neu e-bostiwch gwas-ymwelwyr@llgc.org.uk

TEITHIO

Mae maes parcio cyfleus ger y Llyfrgell neu theithiwch ar fws 03 sy'n dilyn taith gylch rhwng tref Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth.

VISITING

Free guided tours of the Library are available every Monday at 11.00am and Wednesday at 2.15pm. To book a ticket contact the Library Shop on 01970 632 548 or book on-line at www.llgc.org.uk/drwm

Tours are available in Welsh and English.

The Library also offers tours for groups and societies – for further information contact 01970 632 341 or e-mail visitor-services@llgc.org.uk

TRAVELLING

Ample parking is available at the Library or alternatively, you can use the 03 bus which travels on a circular route between Aberystwyth town, the National Library of Wales and Aberystwyth University.

DARGANFOD
DISCOVER

Eisiau manteisio i'r eithaf ar gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell? Os felly, cynhelir sesiynau gwybodaeth ar y pynciau canlynol:

- Catalogau ar-lein ac adnoddau electronig
- Hanes teulu a hanes lleol
- Hanes adeilad
- Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru

Am ragor o wybodaeth neu i archebu eich lle yn un o'r sesiynau, ewch i www.llgc.org.uk/cymorthfeydd neu galwch 01970 632 933

Do you want to know how to get the best out of the Library's collections and services? If so, information sessions are held on the following topics:

- On-line catalogues and e-resources
- Family and local history
- Property history
- National Screen and Sound Archive of Wales

For more information or to book your place, please visit www.llgc.org.uk/surgeries or telephone 01970 632 933

TOCYNNAU / TICKETS
01970 632 548
www.llgc.org.uk/drwm

GWYBODAETH YMWELWYR
VISITOR INFORMATION

CEFNOGI
SUPPORT

CYFEILLION Y LLYFRGELL

Ymunwch â Chyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chewch ostyngiad o 10% ar rai o'r eitemau yn Siop y Llyfrgell: www.llgc.org.uk/cyfeillion

FRIENDS OF THE LIBRARY

Join the NLW Friends and enjoy a 10% discount on some of the items in the Library shop: www.llgc.org.uk/friends

PENODAU

Mae cefnogaeth yn ei hamryfal ffyrdd yn allweddol i ffyniant Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cyfrannwch rodd.
cefnogwch-ni@llgc.org.uk

CHAPTERS

Support in its many forms is vital to the prosperity of the National Library of Wales.

Give a gift.
support-us@llgc.org.uk

RHODDI'N RHEOLAIDD
REGULAR GIVING

Sefydlwyd y Llyfrgell gan roddion pobl Cymru. Wrth ddewis rhoi'n rheolaidd fe fyddwch chi'n parhau'r traddodiad hwnnw: www.llgc.org.uk/cy/am-llgc/gweithio-gyda-ni/cefnogwch-ni/rhoin-rheolaidd/

Am wybodaeth bellach cysylltwch â ni: cefnogwch-ni@llgc.org.uk

Donations given by the people of Wales were used to establish the Library. By giving a regular gift you can continue this tradition: www.llgc.org.uk/en/about-nlw/work-with-us/support-us/regular-giving/

For further information please contact us: support-us@llgc.org.uk

GWASANAETH LLETYGARWCH

Os ydych yn chwilio am leoliad godidog ac unigryw ar gyfer eich seremoni briodas, cynhadledd neu ddigwyddiad, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnig nifer o ystafelloedd, gwasanaeth arlwyo a gwasanaeth technegol i hyd at 100 o bobl. Cysylltwch â'r Swyddog Lletygarwch ar gwas@llgc.org.uk neu 01970 632 341 i drafod eich anghenion ymhellach.

HOSPITALITY FACILITIES

If you're looking for a magnificent and unique venue for your wedding ceremony, conference or event, The National Library of Wales has a number of rooms available for hire and can provide catering and technical support for up to 100 people. Contact our Hospitality Officer on gwas@llgc.org.uk or 01970 632 341 to discuss your requirements.

GWYBODAETH YMWELWYR
VISITOR INFORMATION

Dylai pobl sy'n ymweld â digwyddiadau ac arddangosfeydd a gynhelir yn y Llyfrgell fod yn ymwybodol y gallai ffotograffwyr y Llyfrgell fod yno'n tynnu lluniau. Efallai y bydd y Llyfrgell yn dymuno defnyddio'r lluniau hyn mewn deunydd hyrwyddo a marchnata. Os oes gennych unrhyw wrthwynebiad i'r fath ddefnydd o lun y gallech fod ynddo, rhowch wybod i aelod o staff y Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell yn cadw'r hawl i newid amserau a dyddiadau unrhyw ddigwyddiad neu arddangosfa. Mae'r manylion a geir yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg cyhoeddi.

Visitors to events and exhibitions held at the Library are reminded that the Library's photographers may take photographs. The Library may wish to use these images in promotional and marketing literature. If you have any objection to such use being made of a photograph that may include you, please inform a member of the Library staff.

The Library retains the right to change the scheduling of events or exhibitions. The details listed are correct at the time of publication.

BARN Y BOBL?
WHAT WOULD YOU DO?

Beth, neu bwy, hoffech chi ei weld yn y Llyfrgell? Os oes gennych unrhyw awgrym am siaradwr, cerddor neu ddigwyddiad yr hoffech ei gynnig, cysylltwch â ni. Byddwn yn falch iawn o gael clywed.

Cysylltwch â:
Uned Hyrwyddo
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth SY23 3BU
01970 632 565
post@llgc.org.uk

What or who would you like to see at the Library? If you have a suggestion for a speaker, musician or event, please get in touch. We'd like to hear from you.

Contact:
The Promotions Unit
The National Library of Wales
Aberystwyth SY23 3BU
01970 632 565
post@llgc.org.uk

TOCYNNAU / TICKETS
01970 632 548
www.llgc.org.uk/drwm

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD!
KEEP IN TOUCH!

Ymunwch â'n rhestr bostio rhad ac am ddim i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y Llyfrgell. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod.

–

To join our free mailing list and keep up to date with Library events and activities, please complete and return this form.

Enw / Name .....

Cyfeiriad / Address .....

.....

Ffôn / Phone .....

E-bost / Email .....

Cefais y llyfryn hwn yn (nodwch ble, er enghraifft, y Llyfrgell Genedlaethol, Canolfan Groeso Aberystwyth, ac yn y blaen) /
I obtained this brochure from (please specify e.g. at The National Library, Aberystwyth Tourist Information Centre, etc)

.....

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llanw at:

Uned Hyrwyddo
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth SY23 3BU

Neu drwy e-bost at
post@llgc.org.uk

Rwy'n deall y caiff yr wybodaeth uchod ei dal yn y Llyfrgell yn unig, ac ni fydd unrhyw gwmni na sefydliad arall yn ei defnyddio.

Please return the completed slip to the:

The Promotions Unit
The National Library of Wales
Aberystwyth SY23 3BU

Or e-mail
post@llgc.org.uk

I understand that this information will only be held at the Library, and will not be used by any other company or institution.

LLGC NLW

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
post@llgc.org.uk

Oriau Agor Cyffredinol /
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener/
Monday – Friday
9:30am – 6:00pm
Dydd Sadwrn/Saturday
9:30am – 5:00pm

www.llgc.org.uk

Dylunio / Design Elfen